# CYFARFOD AR Y CYD Y CABINET/PWYLLGORAU CRAFFU AR ADDYSG, SGILIAU A LLES

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**<u>Aelodau sy’n Bresennol:</u>** **<u>8 Mai 2024</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Phillips** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, W.Carpenter, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, N.Goldup-John, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, C.Jordan, C.Lewis, R.Mizen, S.Paddison, S.Pursey, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, D.Thomas a/ac R.W.Wood |
| **Aelodau Cyfetholedig sy’n Pleidleisio:** | M.Caddick |
| **Swyddogion sy’n Bresennol** | C.Barnard, P.Chivers, N.Daniel, T.Davies, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jones, N.Pearce, C.Saunders, A.Thomas, D. Evans, A.Thomas a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn |

---

1. **<u>PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD</u>**

   Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd mai'r Cynghorydd Phil Rogers fyddai'r Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

   Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd mai'r Cynghorydd Rebeca Phillips fyddai’r Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Y Cyng. R Phillips – Eitem rhif 6 ar Agenda’r Cabinet – Personol, Aelod o Hamdden Celtic

Y Cyng. N Goldup-John – Eitem rhif 6 ar Agenda’r Cabinet – Personol, Aelod o Hamdden Celtic

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU – PWLL NOFIO PONTARDAWE**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wrth aelodau eu bod yn gallu cyfeirio at benderfyniadau blaenorol a wnaed ar yr amod bod unrhyw gwestiynau'n berthnasol i'r adroddiad dan ystyriaeth.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes drosolwg byr i'r aelodau o'r adroddiad a gynhwysir ym mhecyn Agenda'r Cabinet.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ynghylch cryfder llethol y teimlad yn y gymuned ynghylch dyfodol y pwll nofio. Gofynnodd yr Aelodau, o ystyried y defnydd cymunedol sylweddol a amlinellir yn yr adroddiad, sut y bydd cau'r pwll yn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau i breswylwyr a pha fesurau sydd wedi'u harchwilio i fynd i'r afael â phryderon diogelwch, gan sicrhau mynediad di-dor at gyfleusterau nofio ar gyfer y gymuned.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y byddai effaith niweidiol ar grwpiau defnyddwyr sy'n gysylltiedig â'r pwll. Byddai rhaglenni'n cael eu hadleoli i gyfleusterau hamdden lleol eraill wrth liniaru. Mae'r angen am gyfleuster newydd yn ddiamheuol ond ar hyn o bryd nid oes cyllid dynodedig ar gael. Mae cynllun propio ar waith ar hyn o bryd sydd wedi galluogi'r cyhoedd i barhau i'w ddefnyddio. Mae'r cynllun hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n annibynnol yn gyson ond bu dirywiad sylweddol yn ffabrig tanc y pwll.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch amseroedd teithio hirach posib ar gyfer preswylwyr sydd am gael mynediad at gyfleusterau

amgen a gofynnwyd a fydd unrhyw strategaethau'n cael eu hystyried i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posib ar iechyd a lles cymunedol, yn enwedig unigolion diamddiffyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes wrth aelodau bod data'n cael ei gadw sy'n dangos bod gan rai defnyddwyr presennol gyfleusterau amgen yn agosach at eu cartrefi a rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Bydd effeithiau posib eraill yn cael eu codi mewn unrhyw gyfleuster newydd os yw'n briodol. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn nodi'r lleoliad gorau ar gyfer pwll newydd a'r opsiynau ariannu sydd ar gael.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw fanylion pellach am gyllid grant posib neu ffynonellau cyllid amgen ar gael, yn dilyn y trafodaethau rhagarweiniol a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod yr holl opsiynau'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd ond bod nifer cyfyngedig o gyrff ariannu posib. Ni nodwyd unrhyw gyllid ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant y cynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol gyda Llywodraeth Cymru ac roedd y rhain yn canolbwyntio ar leoliadau posib.

Gofynnodd yr Aelodau i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth presennol mewn awdurdodau cyfagos mewn unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y byddai'r astudiaeth ddichonoldeb yn edrych ar gymysgedd y cyfleuster a byddai pob grŵp defnyddiwr yn rhan o unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod yr effaith sylweddol y byddai cau'r pwll yn ei chael ar y gymuned ehangach a'r staff a allai gael eu had-leoli. Holodd yr aelodau a fydd unrhyw gymorth ar gael i ysgolion mewn perthynas â chostau cludiant uwch. Gofynnodd yr Aelodau am yr amserlen ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb ac a fyddai ymgynghoriad llawn ynghylch lleoliad a dyluniad unrhyw bwll posib yn y dyfodol pe bai'r argymhellion yn cael eu derbyn.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod Prif Weithredwr dros dro Hamdden Celtic wedi rhoi sicrwydd na

fyddai ymddiswyddiadau gorfodol. Mae pob ysgol wedi cael gwybod am y cynigion a bydd Hamdden Celtic yn cysylltu ag ysgolion ynghylch safleoedd adleoli posib. Mae yna hyder rhesymol y gellir lletya'r rhan fwyaf o ysgolion. Ni fydd unrhyw gyfraniad gan yr awdurdod mewn perthynas ag unrhyw gostau cludiant ychwanegol. Os caiff yr argymhellion eu cymeradwyo, gwneir trefniadau i dendro a phenodi contractwr i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb gyda'r nod o lunio adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn.

Gofynnodd yr aelodau a oedd problemau ym Mhwll Nofio Pontardawe wedi'u canfod cyn 2022.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod adroddiadau a oedd yn ymwneud â chyflwr Pwll Nofio Pontardawe wedi'u cwblhau cyn 2022.

Dywedodd yr Aelodau fod angen i brif drefi'r fwrdeistref gael eu pyllau nofio eu hunain ac nid oedd yr adroddiad yn rhoi unrhyw sicrwydd y bydd pwll newydd yn cael ei adeiladu ym Mhontardawe.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod angen pwll ym Mhontardawe, diben yr astudiaeth ddichonoldeb yw sefydlu'r lleoliad gorau posib, cymysgedd y cyfleuster ac atebion ariannu posib. Ar hyn o bryd, ni ellir sicrhau pwll newydd oherwydd y diffyg cyllid sydd ar gael.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch dosbarthiadau sydd wedi'u dadleoli sy'n trosglwyddo i Bwll Nofio Castell-nedd a gostyngiad posib yn argaeledd nofio cyhoeddus.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant fod capasiti ym Mhwll Nofio Castell-nedd ar hyn o bryd. Mae unrhyw ostyngiad mewn argaeledd yn gysylltiedig â lle yn y pwll yn hytrach na'r amseroedd sydd ar gael. Nodwyd bod gan Hamdden Celtic swyddi gwag ar hyn o bryd ac mae rhai swyddi'n anodd eu llenwi. Gall ail-leoli staff ganiatáu i Bwll Nofio Castell-nedd amrywio amseroedd agor, fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar y defnydd sy'n anhysbys ar hyn o bryd.

Holodd yr aelodau a oedd y defnydd o'r pwll yn Ysgol Gymunedol Llangatwg wedi cael ei ystyried.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant fod y pwll yn Llangatwg wedi cael ei ystyried ond ei fod yn

weddol fach, nid oedd ar gael yn ystod oriau ysgol ac roedd llawer o drefniadau preifat y tu allan i oriau ysgol. Mae'r defnydd o byllau yn Ysgol Maes y Coed a David Lloyd hefyd wedi cael ei archwilio.

Mynegodd yr aelodau bryder y gallai cyllidebau ysgolion effeithio ar gyfleoedd plant i ddysgu nofio os gofynnir i rieni am gyfraniadau ariannol. Nododd yr aelodau ei fod yn bwysig bod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu nofio a bod angen olrhain nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y cyfle.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y bydd modd olrhain nifer y disgyblion sy'n dewis derbyn gwersi nofio. Gan fod gan ysgolion reolaeth dros eu cwricwlwm, bydd rhywfaint o hyblygrwydd ar waith i alluogi defnyddio slotiau.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai cynnwys yr astudiaeth ddichonoldeb yn ystyried defnyddiau ategol o unrhyw adeilad yn y dyfodol i leihau costau gweithredu'r pwll.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y byddai gan unrhyw gyfleuster newydd effeithlonrwydd ynni gwell. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn archwilio'r holl opsiynau i leihau diffyg gweithredol a'u heffaith ar unrhyw atebion ariannol posib.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 7 yr adroddiad a gofynnwyd a oedd ymwybyddiaeth o'r angen i ystyried darpariaeth cyfleusterau pwll yn y dyfodol cyn adroddiad ARUP. Os felly, pa gamau a gymerwyd i gyflawni hyn, o ystyried y bywyd cyfyngedig hysbys sydd gan y math hwn o adeilad.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, fod ymwybyddiaeth o gyflwr yr adeilad cyn adroddiad ARUP, yr ateb oedd y cynnig i ad-drefnu ysgolion ac na chafodd hyn ei ddatblygu.

Holodd yr aelodau ynghylch yr oedi wrth symud ymlaen gyda chynnig pellach.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, yn ystod y flwyddyn ers i'r penderfyniad ar y cynnig ad-drefnu ysgolion gael ei wneud, cynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac mae swyddogion wedi archwilio atebion posib ar gyfer ariannu ond ni nodwyd unrhyw atebion. Mae gallu cyfyngedig i drefnu i fwrw ymlaen â chynlluniau cyfalaf.

Dywedodd yr Aelodau y gallai'r amser a gymerir i gynnal astudiaeth ddichonoldeb achosi oedi pe bai cyllid ar gael a gofynnwyd a oedd y pwll nofio ym Mhontardawe yn cael ei ystyried fel blaenoriaeth. Gofynnodd yr aelodau pam na chafodd y pwll nofio ei ystyried fel cynllun cyfalaf o dan gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio na fyddai cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cyllid digonol ar gyfer cyfleuster newydd. Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod cyfleoedd ariannu yn cael eu lledaenu ar draws y fwrdeistref sirol.

Dywedodd yr Aelodau y gallai cost yr astudiaeth ddichonoldeb fod wedi cael ei dalu gan gais am gyllid. Holodd yr aelodau a oedd unrhyw un wedi cysylltu â CBS Sir Gaerfyrddin ynghylch y defnydd o'i bwll yn Rhydaman ac a fyddai unrhyw gymorth ychwanegol ar gael mewn perthynas â chostau cludiant ysgol uwch. A fydd unrhyw arian a godir o'r safle presennol yn cael ei glustnodi? Dywedodd yr Aelodau fod trigolion ym Mhontardawe wedi mynegi pryderon y byddai lleoliad y pwll presennol yn anaddas ar gyfer cyfleuster newydd oherwydd materion parcio a thraffig, a gofynnwyd i hyn gael ei ystyried ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant Hamdden fod cyswllt cychwynnol wedi'i wneud â Sir Gaerfyrddin a gellir ailymweld â'r cyswllt hwn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod y rhaglen nofio ysgolion yn cael ei hariannu gan yr awdurdod ond nad oedd cynnig i ariannu costau teithio. Mae angen yr astudiaeth ddichonoldeb i nodi lleoliad addas gan fod y problemau parcio yn rhai hirsefydlog. Bydd gwerth cyfalaf y safle yn cael ei gynnwys mewn unrhyw becyn ariannu y gellid ei gyflwyno ar gyfer pwll newydd yn y dyfodol.

Holodd yr Aelodau a fyddai'r Cylch Gorchwyl sy'n ymwneud â'r astudiaeth ddichonoldeb ar gael.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y byddai manyleb yr astudiaeth ddichonoldeb ar gael. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, o dan y model craffu diwygiedig, y gallai'r pwyllgor edrych ar y mater hwn o fewn cylch gwaith y pwyllgor craffu wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 11 yr Asesiad Effaith Integredig a mynegwyd pryder ynghylch yr effeithiau negyddol ar yr holl nodweddion gwarchodedig, ond roeddent yn cydnabod y rhesymau

iechyd a diogelwch dros gau'r pwll. Holodd yr aelodau am y derminoleg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad ynghylch adleoli staff a gofynnwyd a fydd y penderfyniad i oedi wrth symud Hamdden Celtic i fod yn fewnol yn effeithio'n uniongyrchol ar y gweithlu. Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 9 yr adroddiad a mynegwyd pryderon ynghylch gallu Pwll Nofio Castell-nedd i ymdopi â'r galw a'r gofynion. Gofynnodd yr Aelodau, o ystyried nifer y rhybuddion mewn adroddiadau blaenorol am ddiffyg cyllid, am y tebygolrwydd o sicrhau cyllid i adeiladu pwll nofio newydd yn y cymoedd a fydd yn gwasanaethu trigolion Cwm Tawe Uchaf a chymoedd Aman a Llynfell. Awgrymodd yr aelodau y dylid diwygio argymhelliad 4 i gynnwys yr ardal ehangach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes wrth aelodau, er bod ganddynt hyder o hyd y bydd cynigion addas o gyflogaeth amgen yn cael eu cynnig, efallai ni fydd y cynigion hyn yn dderbyniol i unigolion oherwydd eu hamgylchiadau personol. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwersi nofio i ysgolion ond anogir pob person ifanc i ddechrau nofio, fodd bynnag, gwerthfawrogir y gall costau cludiant fod yn rhy ddrud. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw atebion ariannu wedi cael eu nodi ond gallai'r sefyllfa newid. Ni fydd yr oedi wrth newid Hamdden Celtic i fod yn fewnol yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y gweithlu.

Soniodd yr Aelodau am bwysigrwydd defnyddio ynni gwyrdd a'r posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gyfleuster newydd i gynhyrchu pŵer. Gofynnodd yr Aelodau a gysylltwyd â Chyngor Sir Powys a dywedwyd y dylai'r astudiaeth ddichonoldeb fod wedi'i chwblhau yn 2022.

Cytunodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant ar bwysigrwydd defnyddio ynni gwyrdd ar gyfer cyfleusterau presennol ac yn y dyfodol. Cysylltwyd â Phowys ac mae'n bosib y byddant yn codi rhywfaint o'r defnydd yn fasnachol.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Natur, Twristiaeth a Lles i swyddogion am y gwaith a wnaed ac ailadroddodd fod cau'r pwll presennol yn fater o ddiogelwch y cyhoedd ac nid yw unrhyw benderfyniad yn golygu ein bod yn gwrthod cefnogi cyfleusterau nofio yng Nghwm Tawe. Mae angen symud ymlaen gyda'r astudiaeth ddichonoldeb i roi'r awdurdod mewn sefyllfa ffafriol pe bai cyllid ar gael. Anogwyd aelodau i lobïo Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid.

Yn dilyn craffu, cyflwynwyd diwygiad mewn perthynas ag argymhelliad 4. Cefnogwyd yr argymhelliad diwygiedig fel y nodir isod i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

"Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Natur, Twristiaeth a Lles, gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i opsiynau ar gyfer safle yn y dyfodol a chyllid posib ar gyfer cyfleuster newydd ac i ymrwymo, pan fydd adnoddau'n caniatáu, y bydd pwll sy'n gwasanaethu ardal gyfan Cwm Tawe, Cwm Aman a Chwm Llynfell yn cael ei adeiladu."

5. **EITEMU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**Cynghorydd P. Rogers**
**CADEIRYDD**